

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

**(FFORDD Y FYNWENT A THERAS CLEDWYN,
ABERDÂR)**

GORCHYMYN (CYFYNGIADAU AROS) 2021

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae pryderon wedi dod i law ynghylch tagfeydd a pharcio rhwystrol ar Ffordd y Fynwent a Theras Cledwyn. Mae hyn yn cynnwys tagfeydd sy'n cael eu hachosi gan barcio dwbl a lled cul y ffyrdd, sy'n arwain at rwystro traffig dwy ffordd, a hefyd gwelededd gwael i gerbydau sy'n gadael cyffyrdd yn y rhan yma o'r ffordd

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon, mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i gyflwyno Cyfyngiadau Gwahardd Aros yn y lleoliadau yma. Mae creu math o ynys ar gyffordd Teras Cledwyn hefyd wedi'i gynnig er mwyn gwella gwelededd.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y mesurau hyn yn angenrheidiol i leihau tagfeydd, atal cerbydau rhag cael eu parcio mewn modd sy'n peri rhwystr, helpu llif y traffig ac i wella diogelwch ar y ffyrdd i holl ddefnyddwyr y briffordd.

RHONDDA CYNON TAFF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

**(CEMETERY ROAD AND CLEDWYN TERRACE,
ABERDARE)**

(WAITING RESTRICTIONS) ORDER 2021

STATEMENT OF REASONS

Concerns have been received regarding congestion and obstructive parking on Cemetery Road and Cledwyn Terrace. This includes congestion caused by double parking and the narrow road widths, which leads to the obstruction of two-way traffic, and also poor visibility for vehicles exiting junctions in this section of road

To address these concerns, proposals have been developed to introduce prohibition of waiting restrictions at these locations. It is also proposed to introduce a 'ghost island' at the Cledwyn Terrace junction to further improve visibility

The Council considers that these measures are necessary to reduce congestion, prevent obstructive parking, and help facilitate the passage of traffic and improve road safety to other traffic and persons